

Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru

Sut i ddefnyddio Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig GBER

Fersiwn 3 – Mawrth 2018

Mawrth 2018

Sut i ddefnyddio Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig GBER

Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau ymarferol ar ddefnyddio Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig Rheoliad Eithriad Bloc Cyffredinol (GBER). Canllawiau ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chwmnïau sy'n cael Cymorth Datblygu Busnesau Bach a Chanolig yw'r rhain yn bennaf.

Ni ddylech ddibynnu'n llwyr ar y canllawiau a dylech ofyn am gyngor cyfreithiol yng nghyswllt achosion unigol. Roedd y canllawiau'n gywir adeg eu cyhoeddi ond cofiwch fod y gyfraith yn newid yn gyson.

Mae fersiwn lawn o'r Rheoliad i'w weld yn:

<http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/PDF/?uri=CELEX:02014R0651-20170710&qid=1513261597398&from=EN>

Mae crynodeb o'r GBER i'w weld yn:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/325465/bis-14-943-state-aid-general-block-exemption-guidance.pdf

PWYSIG – dylech ddefnyddio'r canllawiau hyn ar y cyd â'r fersiwn lawn o'r GBER a'r ddogfen gofrestru sy'n berthnasol i'ch cynllun chi.

Cefndir

Gall awdurdodau cyhoeddus ddefnyddio'r GBER i gynorthwyo Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) i'w galluogi i;

- fanteisio ar wasanaethau ymgynghori;
- manteisio ar wasanaethau cynghori;
- cymryd rhan mewn ffeiriau masnach;
- cymryd rhan mewn prosiectau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Caiff y math hwn o gymorth gwladwriaethol ei ganiatáu gan fod y Comisiwn Ewropeaidd o'r farn ei bod yn anoddach i fusnesau bach a chanolig gael gwybodaeth, yn enwedig gwybodaeth am dechnoleg newydd a marchnadoedd posibl, a hynny oherwydd prinder adnoddau. Mae'r Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig yn helpu i unioni'r sefyllfa.

Defnyddio Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig GBER

Rhaid rhoi'r gweithdrefnau priodol ar waith i redeg cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig GBER.

Cam 1 – Cadarnhau bod y cwmni sy'n cael y cymorth yn fusnes bach neu ganolig

A yw'r cwmni yn fusnes bach a chanolig, yn ôl y diffiniad yn y canllawiau'r Comisiwn Ewropeaidd?

Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi ei ddiffiniadau ei hun o fusnesau bach a chanolig. Rhaid defnyddio'r rhain wrth bennu statws y cwmni sy'n cael y cymorth. Dyma'r categorïau:

Categori	Nifer y staff	Trosiant	Cyfanswm y fantolen
Canolig	Llai na 250	Cyferth â €50 miliwn, neu lai	Cyferth â €43 miliwn, neu lai
Bach	Llai na 50	Cyferth â €10 miliwn, neu lai	Cyferth â €10 miliwn, neu lai
Micro	Llai na 10	Cyferth â €2 miliwn, neu lai	Cyferth â €2 miliwn, neu lai

Sylwch os yw cwmni arall yn berchen ar gyfran o'r busnes sy'n cael y cymorth (h.y. yn bartner neu'n fusnes cyswllt) mae'n bosibl y bydd angen ystyried manylion, neu rai manylion, y cwmni hwnnw hefyd. I gael rhagor o wybodaeth, dylech ddarllen Canllawiau'r Comisiwn ar BBaCh sydd i'w gael yma:

<http://ec.europa.eu/DocsRoom/documents/15582/attachments/1/translations/en/renditions/native>

Cam 2 - Sicrhau bod y cwmni sy'n cael y cymorth wedi cofrestru am y math priodol o gymorth gwladwriaethol

Rhaid cofrestru pob Cynllun Datblygu BBaCh GBER gyda'r Comisiwn..

Os ydych yn gweithio i Lywodraeth Cymru (neu'n rhedeg cynllun ar ran Llywodraeth Cymru) gallwch ddefnyddio'r cofrestrriad a ganlyn:

SA.49657	Cynllun Datblygu BBaCh Llywodraeth Cymru	http://gov.wales/docs/det/report/171201-gber-sme.pdf
----------	--	---

Nid oes angen cofrestru cynllun newydd.

Os nad yw'r cofrestrriad hwn yn gymwys i chi, bydd angen i chi gofrestru cynllun. Gall yr Uned Cymorth Gwladwriaethol eich helpu gyda'r broses hon. Defnyddiwch y mewnflwch isod:

state.aid@gov.wales

Cam 3 – Gofalwch fod y cymorth rydych am ei roi'n bodloni holl amodau Cynllun Datblygu Busnesau Bach a Chanolig GBER.

Ni chaiff cymorth ei ystyried yn gymorth gwladwriaethol cymwys os nad yw'n bodloni holl amodau a thelerau'r GBER ac, drwy hynny, amodau a thelerau'r cynllun cofrestredig. Bydd angen gwirio pob buddsoddiad yn ôl yr amodau hyn. Mae **Atodiad 1** yn cynnwys rhestrau gwirio a fydd yn eich helpu.

Rhestr wirio A	Cymorth i fanteisio ar wasanaethau ymgynghori sy'n rhoi mantais i fusnesau bach a chanolig
Rhestr wirio B	Cymorth i fusnesau bach a chanolig gymryd rhan mewn ffeiriau masnach
Rhestr wirio C	Cymorth i dalu costau cydweithredu busnesau bach a chanolig pan fyddant yn cymryd rhan mewn prosiectau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd.

Bydd angen i chi gadw tystiolaeth ategol i ddangos ein bod yn bodloni'r holl amodau a thelerau, a hynny oherwydd y gall y Comisiwn Ewropeaidd ofyn i chi ddangos bod y cymorth y byddwch yn ei roi'n gydnaws â'r rheolau.

Cam 4 – A yw'r cymorth yn werth dros €500,000?

A yw'r cymorth rydych yn ei roi'n werth dros €500,000. Dylech gyfrifo'r swm cyfatebol mewn sterling drwy ddefnyddio system y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer trosi'r gyfradd gyfnewid, drwy ddilyn y linc isod:

http://ec.europa.eu/budget/contracts_grants/info_contracts/infoeuro/infoeuro_en.cfm

Yna, rhaid rhoi manylion y buddsoddiad ar gronfa ddata Tryloywder y Comisiwn Ewropeaidd, sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Rhaid i chi gasglu'r wybodaeth a ganlyn:

- Enw'r cwmni sy'n cael y cymorth;
- Cod adnabod y cwmni;
- Maint y cwmni (bach, canolig neu fawr) pan roddir y cymorth iddo;
- Y rhanbarth y lleolir y sefydliad ynddo yn ôl NUTS 2 (mae rhestr o ardaloedd NUTS 2 yn Atodiad 2);
- Y sector dan sylw, yn ôl grwpiau NACE – mae rhestr o godau NACE yn http://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_all.html;
- Swm y cymorth mewn sterling;
- Y math o gymorth a roddir (grant/cymhorthdal cyfradd llog, benthygiad, taliad ymlaen llaw/grant i'w ad-dalu/ mantais neu eithriad o ran treth, cyllid risg, arall (nodwch);
- Dyddiad rhoi'r cymorth;
- Nod y cymorth h.y. sut y caiff ei ddefnyddio? Beth rydych yn gobeithio'i gyflawni drwy roi'r cymorth?
- Yr awdurdod sy'n rhoi'r cymorth;

- Cyfeirnod y cymorth a gynigir.

Yna rhaid rhoi'r wybodaeth hon i Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio'r e-ffurflen ar-lein yma:

<http://gov.wales/funding/state-aid/gber/transparency/?skip=1&lang=cy>

Cam 5 – Cadarnhau'ch bod wedi'ch cofrestru at ddibenion monitro gwybodaeth bob blwyddyn

Ysgrifennwch at Uned Cymorth Gwladwriaethol Llywodraeth Cymru i ddweud wrthynt am y cofrestriad rydych yn ei ddefnyddio gan roi enw cyswllt, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost. Mae angen y wybodaeth hon ar yr Uned gan eu bod yn cydgysylltu'r broses monitro gwybodaeth flynyddol yng Nghymru. Rhaid iddynt gael cyswllt ym mhob sefydliad sy'n rhoi arian o dan gynllun a gofrestrir â GBER. Dyma gyfeiriad e-bost yr Uned:

state.aid@gov.wales

Dyma gyfeiriad post yr Uned:

Uned Cymorth Gwladwriaethol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays 2
Caerdydd
CF10 3NQ

Atodiad 1- Rhestr Wirio A – Cymorth i fanteisio ar wasanaethau ymgynghori sy'n rhoi mantais i fusnesau bach a chanolig

Gwybodaeth am y cwmni/busnes sy'n cael y cymorth		Cadarnhawyd do/naddo	Tystiolaeth ategol
Cadarnhau maint y busnes:	Gwnewch yn siŵr bod y cwmni sy'n cael y cymorth yn fusnes bach neu ganolig yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Busnesau Bach a Chanolig.		
Cadarnhau NAD yw'r busnes sy'n cael y cymorth yn perthyn i un o'r sectorau a ganlyn:	• Pysgodfeydd a dyframaeth; • Cynhyrchu nwyddau amaethyddol ar lefel gynradd (ac eithrio cymorth i fanteisio ar wasanaethau ymgynghori sy'n rhoi mantais i BBaCh); • Prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol ac (1) mae swm y cymorth wedi'i bennu ar sail pris neu faint y cynhyrchion hyn a brynwyd gan gynhyrchwyr cynradd neu a roddwyd ar y farchnad gan y BBaCh dan sylw neu (2) rhoddir y cymorth ar yr amod ei fod yn cael ei drosglwyddo'n llawn neu'n rhannol i'r cynhyrchwyr cynradd.		
Cadarnhau NAD yw'r canlynol yn berthnasol i'r busnes sy'n cael y cymorth:	• Mae gorchymyn i adennill cymorth y mae'r Comisiwn wedi datgan sy'n anghyfreithlon ac yn anghydnaws â'r Farchnad gyffredin; • Mae'n "gwmni mewn trafferthion" o fewn yr ystyr a roddir ym Mhennod 2 o ganllawiau'r Gymuned ar gymorth gwladwriaethol i achub ac ailstrwythuro cwmnïau mewn trafferthion (OJ C 244, 1.10.2004, t.2).		
Gwybodaeth am y prosiect			
Cadarnhau nad oedd y cwmni wedi dechrau gweithio ar y prosiect cyn cyflwyno'r cais.			
Cadarnhau bod y cwmni wedi cyflwyno cais ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn cyn i'r gwaith ar y prosiect ddechrau: (a) Enw a maint; (b) Disgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen;			

(c) Lleoliad y prosiect; (ch) Rhestr o gostau'r prosiect; (d) Natur a swm yr arian cyhoeddus sydd ei angen ar y prosiect.			
Cadarnhau nad yw'r gwasanaeth ymgynghori yn barhaus ac nad yw'n gysylltiedig â gweithgaredd cyfnodol :			
Cadarnhau nad yw'r gwasanaeth ynghynghori yn gysylltiedig â chostau gweithredu arferol y busnes e.e. ymgynghori ynghylch treth, costau cyfreithiol rheolaidd, hysbysebu:			
Cadarnhau mai ymgynghorwyr allanol sy'n cynnig y gwasanaeth ymgynghori:			
Gwybodaeth am y cymorth			
Cadarnhau NAD yw'r cymorth yn cael ei roi ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn:	- Gweithgareddau'n ymwneud ag allforio; - Cymorth sy'n amodol ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau a gaiff eu mewnfario; - Cymorth i hwyluso'r broses o gau pyllau glo anghystadluel.		
Cadarnhau nad yw'r cyfyngiadau a ganlyn yn gymwys:	- Rhaid i bencadlys y cwmni fod yn y DU neu rhaid iddo fod wedi'i leoli'n bennaf yn y DU; - Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu i ddefnyddio canlyniadau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn y DU yn unig.		
Cadarnhau'r math o gymorth a roddir:	- Grant; - Cymhorthdal cyfradd llog; - Benthyciad; - Taliad ymlaen llaw i'w ad-dalu.		
Gwybodaeth am gostau cymwys			
Cadarnhau bod costau ategol yn gymwys :	Costau'r gwasanaeth ymgynghori.		
Cadarnhau na roddwyd cymorth o fath arall ar gyfer yr un costau cymwys:	Os dyna'r achos, gofawch nad yw cyfanswm y cymorth o roddwyd o dan Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn fwy na'r lefel uchaf o gymorth fesul eitem neu swm y cymorth sy'n gymwys o dan y Rheoliad hwnnw.		
Gwybodaeth am gymorth fesul eitem			

Cadarnhau nad yw'r cymorth fesul eitem yn fwy na 50%.		
Gwybodaeth am drothwyon hysbysu		
Cadarnhau nad yw'r cymorth yn fwy na €2 miliwn am bob ymgymeriad, ac am bob prosiect.		
Gwybodaeth am gofnodi gwybodaeth		
Os yw'r cymorth yn fwy na €500,000, rhaid cadarnhau eich bod wedi casglu'r wybodaeth a ganlyn i'w chynnwys ar gronfa ddata Tryloywder y Comisiwn Ewropeaidd: • Enw'r cwmni sy'n cael y cymorth; • Cod adnabod y cwmni; • Maint y cwmni (bach, canolig neu fawr) pan roddir y cymorth iddo; • Y rhanbarth y lleolir y sefydliad ynddo yn ôl NUTS 2 (mae rhestr o ardaloedd NUTS 2 yn Atodiad 2); • Sector yn ôl grwpiau NACE – mae rhestr o godau NACE yn http://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_all.html; • Swm y cymorth mewn sterling; • Y math o gymorth a roddir (grant/cymhorthdal cyfradd llog, benthychiad, taliad ymlaen llaw/grant i'w ad-dalu/ mantais neu eithriad o ran treth, cyllid risg, arall (nodwch); • Dyddiad rhoi'r cymorth; • Nod y cymorth h.y. sut y caiff ei ddefnyddio? Beth rydych yn gobeithio'i gyflawni drwy roi'r cymorth? • Yr awdurdod sy'n rhoi'r cymorth; • Cyfeirnod y cymorth a gynigir.		
Cadarnhau eich bod wedi rhoi'r enw cyswllt a'r manylion eraill i state.aid@gov.wales		

Atodiad 1- Rhestr wirio B – Cymorth i fusnesau bach a chanolig gymryd rhan mewn ffeiriau masnach

Gwybodaeth am y cwmni/busnes sy'n cael cymorth		Cadarnhawyd do/naddo	Tystiolaeth ategol
Cadarnhau maint y busnes:	Gwnewch yn siŵr bod y cwmni sy'n cael y cymorth yn fusnes bach neu ganolig yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Busnesau Bach a Chanolig.		
Cadarnhau NAD yw'r busnes sy'n cael y cymorth yn perthyn i un o'r sectorau a ganlyn:	• Pysgodfeydd a dyframaeth; • Cynhyrchu nwyddau amaethyddol ar lefel gynradd (ac eithrio cymorth i fanteisio ar wasanaethau ymgynghori sy'n rhoi mantais i BBaCh); • Prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol ac (1) mae swm y cymorth wedi'i bennu ar sail pris neu faint y cynhyrchion hyn a brynwyd gan gynhyrchwyr cynradd neu a roddwyd ar y farchnad gan y BBaCh dan sylw neu (2) rhoddir y cymorth ar yr amod ei fod yn cael ei drosglwyddo'n llawn neu'n rhannol i'r cynhyrchwyr cynradd.		
Cadarnhau NAD yw'r canlynol yn berthnasol i'r busnes sy'n cael y cymorth:	• Mae gorchymyn i adennill cymorth y mae'r Comisiwn wedi datgan sy'n anghyfreithlon ac yn anghydnaws â'r Farchnad gyffredin; • Mae'n "gwmni mewn trafferthion" o fewn yr ystyr a roddir ym Mhennod 2 o ganllawiau'r Gymuned ar gymorth gwladwriaethol i achub ac ailstrwythuro cwmnïau mewn trafferthion (OJ C 244, 1.10.2004, t.2).		
Gwybodaeth am y prosiect			
Cadarnhau nad oedd y cwmni wedi dechrau gweithio ar y prosiect cyn cyflwyno'r cais.			
Cadarnhau bod y cwmni wedi cyflwyno cais ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn cyn i'r gwaith ar y prosiect ddechrau: (a) Enw a maint; (b) Disgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen; (c) Lleoliad y prosiect; (ch) Rhestr o gostau'r prosiect; (d) Natur a swm yr arian cyhoeddus sydd ei angen ar y			

prosiect.		
Gwybodaeth am y cymorth		
Cadarnhau NAD yw'r cymorth yn cael ei roi ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn:	- Gweithgareddau'n ymwneud ag allforio; - Cymorth sy'n amodol ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau a gaiff eu mewnforio; - Cymorth i hwyluso'r broses o gau pyllau glo anghystadlau.	
Cadarnhau nad yw'r cyfyngiadau a ganlyn yn gymwys:	- Rhaid i bencadlys y cwmni fod yn y DU neu rhaid iddo fod wedi'i leoli'n bennaf yn y DU; - Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu i ddefnyddio canlyniadau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn y DU yn unig.	
Cadarnhau'r math o gymorth a roddir:	- Grant; - Cymhorthdal cyfradd llog; - Benthyciad; - Taliad ymlaen llaw i'w ad-dalu.	
Gwybodaeth am gostau cymwys		
Cadarnhau bod y costau ategol yn gymwys :	Rhentu, gosod a rhedeg stondin mewn ffair benodol.	
Cadarnhau na roddwyd cymorth o fath arall ar gyfer yr un costau cymwys:	Os dyna'r achos, gofalwch nad yw cyfanswm y cymorth o roddwyd o dan Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn fwy na'r lefel uchaf o gymorth fesul eitem neu swm y cymorth sy'n gymwys o dan y Rheoliad hwnnw.	
Gwybodaeth am gymorth fesul eitem		
Cadarnhau nad yw'r cymorth fesul eitem yn fwy na 50%.		
Gwybodaeth am drothwyon hysbysu		
Cadarnhau nad yw'r cymorth yn fwy na €2 miliwn am bob ymgymeriad, ac am bob prosiect.		
Gwybodaeth am gofnodi gwybodaeth		
Os yw'r cymorth yn fwy na €500,000, rhaid cadarnhau eich bod wedi casglu'r wybodaeth a ganlyn i'w chynnwys ar gronfa ddata Tryloywder y Comisiwn Ewropeaidd:		
- Enw'r cwmni sy'n cael y cymorth; - Cod adnabod y cwmni; - Maint y cwmni (bach, canolig neu fawr) pan roddir y cymorth iddo; - Y rhanbarth y lleolir y sefydliad ynddo yn ôl NUTS 2		

(mae rhestr o ardaloedd NUTS 2 yn Atodiad 2); • Sector yn ôl grwpiau NACE – mae rhestr o godau NACE yn http://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_all.html; • Swm y cymorth mewn sterling; • Y math o gymorth a roddir (grant/cymhorthdal cyfradd llog, benthychiad, taliad ymlaen llaw/grant i'w ad-dalu/ mantais neu eithriad o ran treth, cyllid risg, arall (nodwch); • Dyddiad rhoi'r cymorth; • Nod y cymorth h.y. sut y caiff ei ddefnyddio? Beth rydych yn gobeithio'i gyflawni drwy roi'r cymorth? • Yr awdurdod sy'n rhoi'r cymorth; • Cyfeirnod y cymorth a gynigir.		
Cadarnhau eich bod wedi rhoi'r enw cyswllt a'r manylion eraill i state.aid@gov.wales		

Atodiad 1 – Rhestr wirio C - Cymorth i dalu costau cydweithredu busnesau bach a chanolig pan fyddant yn cymryd rhan mewn prosiectau Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd

Gwybodaeth am y cwmni/busnes sy'n cael y cymorth		Cadarnhawyd do/naddo	Tystiolaeth ategol
Cadarnhau maint y busnes:	Gwnewch yn siŵr bod y cwmni sy'n cael y cymorth yn fusnes bach neu ganolig yn unol â Chanllaw'r Comisiwn Ewropeaidd ynghylch Busnesau Bach a Chanolig.		
Cadarnhau NAD yw'r busnes sy'n cael y cymorth yn perthyn i un o'r sectorau a ganlyn:	• Pysgodfeydd a dyframaeth; • Cynhyrchu nwyddau amaethyddol ar lefel gynradd (ac eithrio cymorth i fanteisio ar wasanaethau ymgynghori sy'n rhoi mantais i BBaCh); • Prosesu a marchnata cynhyrchion amaethyddol ac (1) mae swm y cymorth wedi'i bennu ar sail pris neu faint y cynhyrchion hyn a brynwyd gan gynhyrchwyr cynradd neu a roddwyd ar y farchnad gan y BBaCh dan sylw neu (2) rhoddir y cymorth ar yr amod ei fod yn cael ei drosglwyddo'n llawn neu'n rhannol i'r cynhyrchwyr cynradd.		
Cadarnhau NAD yw'r canlynol yn berthnasol i'r busnes sy'n cael y cymorth:	• Mae gorchymyn i adennill cymorth y mae'r Comisiwn wedi datgan sy'n anghyfreithlon ac yn anghydnaws â'r Farchnad gyffredin; • Mae'n "gwmni mewn trafferthion" o fewn yr ystyr a roddir ym Mhennod 2 o ganllawiau'r Gymuned ar gymorth gwladwriaethol i achub ac ailstrwythuro cwmnïau mewn trafferthion (OJ C 244, 1.10.2004, t.2).		
Gwybodaeth am y prosiect			
Cadarnhau nad oedd y cwmni wedi dechrau gweithio ar y prosiect cyn cyflwyno'r cais.			
Cadarnhau bod y cwmni wedi cyflwyno cais ysgrifenedig a oedd yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn cyn i'r gwaith ar y prosiect ddechrau: (a) Enw a maint; (b) Disgrifiad o'r prosiect, gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen; (c) Lleoliad y prosiect;			

(ch) Rhestr o gostau'r prosiect; (d) Natur a swm yr arian cyhoeddus sydd ei angen ar y prosiect.			
Gwybodaeth am y cymorth			
Cadarnhau NAD yw'r cymorth yn cael ei roi ar gyfer unrhyw un o'r gweithgareddau a ganlyn:	- Gweithgareddau'n ymwneud ag allforio; - Cymorth sy'n amodol ar ddefnyddio nwyddau domestig yn hytrach na nwyddau a gaiff eu mwynforio; - Cymorth i hwyluso'r broses o gau pyllau glo anghystadluel.		
Cadarnhau nad yw'r cyfyngiadau a ganlyn yn gymwys:	- Rhaid i bencadlys y cwmni fod yn y DU neu rhaid iddo fod wedi'i leoli'n bennaf yn y DU; - Mae'r cwmni wedi'i gyfyngu i ddefnyddio canlyniadau Ymchwil, Datblygu ac Arloesi yn y DU yn unig.		
Cadarnhau'r math o gymorth a roddir:	- Grant; - Cymhorthdal cyfradd llog; - Benthyciad; - Taliad ymlaen llaw i'w ad-dalu.		
Gwybodaeth am gostau cymwys			
Cadarnhau bod y costau ategol yn gymwys :	- Costau cydweithredu gan gynnwys costau staff a swyddfeydd i'r graddau eu bod yn ymwneud â'r prosiect cydweithredu. - Costau gwasanaethau cynghori a chynorthwyo, cysylltiedig â chydweithredu, gan ymgynghorwyr a darparwyr allanol - Costau teithio, costau offer a gwariant buddsoddi sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiect a dibrisiant offer a chyfarpar a ddefnyddir ar gyfer y prosiect yn uniongyrchol		
Cadarnhau na roddwyd cymorth o fath arall ar gyfer yr un costau cymwys:	Os dyna'r achos, gofalgwch nad yw cyfanswm y cymorth o roddwyd o dan Reoliad Eithriad Bloc Cyffredinol yn fwy na'r lefel uchaf o gymorth fesul eitem neu swm y cymorth sy'n gymwys o dan y Rheoliad hwnnw.		
Gwybodaeth am gymorth fesul eitem			
Cadarnhau nad yw'r cymorth fesul eitem yn fwy na 50%.			
Gwybodaeth am drothwyon hysbysu			

Cadarnhau nad yw'r cymorth yn fwy na €2 miliwn am bob ymgymeriad, ac am bob prosiect.		
Gwybodaeth am gofnodi gwybodaeth		
Os yw'r cymorth yn fwy na €500,000, rhaid cadarnhau eich bod wedi casglu'r wybodaeth a ganlyn i'w chynnwys ar gronfa ddata Tryloywder y Comisiwn Ewropeaidd: • Enw'r cwmni sy'n cael y cymorth; • Cod adnabod y cwmni; • Maint y cwmni (bach, canolig neu fawr) pan roddir y cymorth iddo; • Y rhanbarth y lleolir y sefydliad ynddo yn ôl NUTS 2 (mae rhestr o ardaloedd NUTS 2 yn Atodiad 2); • Sector yn ôl grwpiau NACE – mae rhestr o godau NACE yn http://ec.europa.eu/competition/mergers/cases/index/nace_al.html; • Swm y cymorth mewn sterling; • Y math o gymorth a roddir (grant/cymhorthdal cyfradd llog, benthyciad, taliad ymlaen llaw/grant i'w ad-dalu/ mantais neu eithriad o ran treth, cyllid risg, arall (nodwch); • Dyddiad rhoi'r cymorth; • Nod y cymorth h.y. sut y caiff ei ddefnyddio? Beth rydych yn gobeithio'i gyflawni drwy roi'r cymorth? • Yr awdurdod sy'n rhoi'r cymorth; • Cyfeirnod y cymorth a gynigir.		
Cadarnhau eich bod wedi rhoi'r enw cyswllt a'r manylion eraill i state.aid@gov.wales		

Atodiad 2

Ardaloedd NUTS* 2 yng Nghymru

Gorllewin Cymru a'r Cymoedd	Blaenau Gwent
	Pen-y-bont ar Ogwr
	Caerffili
	Sir Gaerfyrddin
	Ceredigion
	Conwy
	Sir Ddinbych
	Gwynedd
	Ynys Môn
	Merthyr Tydfil
	Castell-nedd Port Talbot
	Sir Benfro
	Rhondda Cynon Taf
	Dinas a Sir Abertawe
	Torfaen
**Dwyrain Cymru	Caerdydd
	Sir y Fflint
	Casnewydd
	Powys
	Bro Morgannwg
	Wrecsam

- ***NUTS, 'Enwau Unedau Tiriogaethol at Ddibenion Ystadegaeth, yw'r cod daearyddol safonol a ddefnyddir i gyfeirio at i isadrannau Aelod-wladwriaethu'r UE at ddibenion ystadegol.**

****Mae Sir Fynwy hefyd yn rhan o Ddwyrain Cymru ond, ar hyn o bryd, nid yw'n ardal sy'n rhan o fap y DU o ardaloedd a gynorthwyr.**